**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Cyfarfod aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 16 Awst 2022 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | R Fogarty | T J Hennegan |
| M Jones | H Lawson | W G Lewis |
| F D O'Brien | S Pritchard | T M White |

**Aelod(au) Cyfetholedig Statudol**
Elizabeth Lee

**Cynghorwyr sy'n Aelod Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| C A Holley | S M Jones |
| P R Hood-Williams | L R Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth Gwasanaethau Eiddo |
| Kim Collis | Archifydd Sirol |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Pamela Milford | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd E King – Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant
Y Cynghorydd R C Stewart – Arweinydd y Cyngor
Y Cynghorydd R Francis-Davies – Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): V A Holland, P N May a M S Tribe
Aelodau Cyfetholedig Statudol: Beth Allender

---

**11 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 12 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 13 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

## 14 Cwestiynau gan y cyhoedd

Dywedodd y Cadeirydd fod dau gwestiwn wedi eu derbyn gan y cyhoedd. Nid oedd yr un o aelodau'r cyhoedd yn bresennol ac roeddynt wedi gofyn i'r Cadeirydd godi'r cwestiynau ar eu rhan. Gan fod y cwestiynau'n ymwneud â chofnod rhif 15, byddent yn ymdrin â nhw yn ystod y trafodaethau hynny.

Cyfeiriwyd gohebiaeth bellach gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â chau'r ffyrdd yn ddiweddar o ganlyniad i'r treiathlon a digwyddiadau eraill at Aelod perthnasol y Cabinet am ymateb.

## 15 Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelod y Cabinet – Archifau/Hwb Cymunedol

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant ei adroddiad a oedd yn ymdrin â'r cynnydd mewn perthynas â datblygu Hwb Cymunedol yng nghanol y ddinas, a fydd yn gartref, ymysg pethau eraill, i'r Gwasanaeth Archifau, gwybodaeth am berfformiad y Gwasanaeth Archifau a'r sefyllfa bresennol wrth symud i gartref newydd. Roedd yr Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth hefyd yn bresennol i gyfrannu ac ateb cwestiynau perthnasol.

Roedd Geoff Bacon, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo, a Kim Collis, yr Archifydd Sirol, yn bresennol i gefnogi trafodaeth y Pwyllgor. Gwahoddwyd y ddau i roi trosolwg o gynnydd mewn perthynas â'r prosiect Hwb Cymunedol a'r goblygiadau i'r Gwasanaeth Archifau. Aeth Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo â'r Pwyllgor drwy'r adroddiad a gyflwynwyd i ddeall cefndir yr Hwb Cymunedol a'r amcanion, a'r gwaith a wnaed hyd yma.

Achubodd y Pwyllgor ar y cyfle i holi Aelodau'r Cabinet a chlywed gan y prif Swyddogion.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cwestiwn gan aelod o’r cyhoedd, Susan Thomas, ynglŷn â'r Gwasanaeth Archifau/Hwb Cymunedol, oedd â phryderon am unrhyw ostyngiad mewn mynediad i'r cyhoedd i'r Gwasanaeth Archif/lle sydd ar gael i ddefnyddwyr.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant fod defnyddwyr wedi cael y cyfle i fanylu ar eu prif ofynion fel rhan o'r broses ymgynghori. Er y byddai'r lle

yn gyfyngedig, byddai'r cyhoedd yn cael eu cyfeirio at ardaloedd eraill lle gallent gyrchu'r wybodaeth (llyfrgelloedd, er enghraifft) a byddai'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu gwasanaeth da yn y lleoliad newydd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr ail gwestiwn gan aelod o'r cyhoedd, Elisabeth Bennett, ynglŷn â'r Gwasanaethau Archif/Hwb Cymunedol a lleihad ym maint yr ystafell chwilio, ac yn arbennig yr effaith y gall hyn ei gael ar y gwasanaethau addysgol y gallai'r Gwasanaeth Archifau eu darparu.

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant at ei ymateb blaenorol yn yr ystyr y byddai'r lle fydd ar gael yn gyffredinol yn gwella'r cynnig sydd ar gael i ysgolion o ran lle sydd ar gael i'w ddefnyddio. Nodwyd y gallai dosbarthiadau mawr o blant gadw ardaloedd o faint priodol ymlaen llaw er mwyn darparu ar gyfer eu hanghenion.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at ddatblygiad y siopau dan yr unto/hybiau cymunedol. Byddai'r hybiau cymunedol hyn yn gwella'r gwasanaeth i'r cyhoedd drwy gyfuno gwasanaethau allweddol fel tai/llyfrgelloedd mewn un ardal hygyrch.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ynghylch pa wasanaethau'r cyngor a rhanddeiliaid fyddai'n cael eu lleoli yn yr Hwb Cymunedol newydd yn nghanol y ddinas, dywedodd Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant y byddai'r rhanddeiliaid sy'n gweithio o hybiau cymunedol yn cynnwys gwasanaethau mewnol y cyngor (archifau, opsiynau tai, dysgu gydol oes, y ganolfan gyswllt etc.) a bod trafodaethau'n parhau gyda phartneriaid allanol, er nid oedd yn gallu datgelu manylion y partneriaid allanol ar hyn o bryd oherwydd sensitifrwydd masnachol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch lefel yr ymrwymiad gan bartneriaid allanol mewn perthynas â darparu gwasanaethau o'r Hwb Cymunedol, dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'r arweiniad a roddwyd gan y sector cyhoeddus yng nghanol y ddinas yn magu hyder yn y sector preifat i wneud yr un peth. Rhoddodd fanylion cynhwysfawr ynghylch cynigion gan sefydliad adfywio mawr oedd wrthi'n buddsoddi mewn safleoedd yng nghanol y ddinas.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a oedd unrhyw ddewisiadau amgen wedi cael eu hystyried ynghylch adleoli pe bai problem gyda chyflawni achrediad/ardystiad angenrheidiol ar gyfer y Gwasanaeth Archifau, dywedodd yr Archifydd Sirol y byddai angen i'r Gwasanaeth Archifau newid y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau i ysgolion ac addasu i'r amgylchedd newydd. Cyfeiriodd at y system bresennol lle mae ysgolion yn profi dogfennau gwreiddiol. Fodd bynnag, o ystyried cyfyngiadau ystafell chwilio'r archifau, byddai angen iddynt ddatblygu ffordd wahanol o wneud hyn gan nad oedd modd dod â dogfennau gwreiddiol i ardaloedd cyhoeddus. Byddai angen i'r Gwasanaeth Archifau weithio o gwmpas cyfyngiadau adeilad aml-ddefnydd ac ni fyddai'r gwasanaeth presennol yn cael ei atgynhyrchu yn yr adeilad newydd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ynghylch a oedd Hwb Cymunedol canol y ddinas yn caniatáu cyfle i ehangu'r Gwasanaeth Archifau, dywedodd Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant ei fod yn darparu cyfleoedd i newid y gwasanaeth ac i ysgolion gael mynediad at gyfleusterau gwell.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ynghylch y lle archif yn bodloni meini prawf penodol ac a oedd cynlluniau amgen pe na bai hyn yn wir, cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant at yr ymgynghoriad a oedd wedi'i gynnal gyda rhanddeiliaid mawr a oedd, yn ei dro, wedi llywio'r broses ddylunio. Nid oedd trefniadau amgen ar hyn o bryd a rhagwelwyd na fyddai angen unrhyw rai.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ynghylch nifer yr ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus a dderbyniwyd ynghylch yr Hwb Cymunedol ac a oedd y rhain i gyd yn gadarnhaol, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo fod y mwyafrif o'r 500 o ymatebion a dderbyniwyd yn gadarnhaol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ynghylch parcio a mynediad i'r anabl, dywedodd Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant fod yr ymgynghoriad wedi llywio'r dyluniad. Byddai cyfleusterau parcio i'r anabl ar gael y tu ôl i *Marks and Spencer* ac yn yr ardal gyfagos.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ynghylch unrhyw amrywiad yng nghostau'r prosiect o'r amcangyfrif blaenorol a adroddwyd i'r Pwyllgor a'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2021, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo fod y cynllun a'r costau sy'n gysylltiedig ag ef wedi cynyddu o’u cymharu â'r cynllun gwreiddiol. Dywedodd fod costau cynyddol i'w disgwyl o gofio pwysau chwyddiant presennol ond ategodd y nod o gyflawni cynllun a oedd yn gynaliadwy ac yn gost-effeithiol.

O ran costau'r prosiect, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod cwmpas y cynllun wedi newid yn sylweddol ond bod cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn gefnogol i'r prosiect. Roedd y cyngor yn gobeithio llofnodi cytundeb pris penodol a gwneud gwaith peirianneg gwerth ar gyfer y costau i sicrhau'r cytundeb gorau i'r trethdalwr. Dywedodd fod y tîm wedi gwneud gwaith da wrth ddatblygu'r cynllun a oedd bellach yn darparu llawer mwy o werth am arian o'i gymharu â phan oedd y cynllun yn ei gamau cyntaf.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ynglŷn â'r angen i gyhoeddi costau'r cynllun, o ystyried yr argyfwng costau byw, dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod yn ymwybodol o'r angen i gyhoeddi'r costau terfynol ac y byddai'n gwneud hynny maes o law, gan ystyried unrhyw gyfyngiadau ar adrodd oherwydd sensitifrwydd masnachol. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo y byddai penodiad contractwr yn cael ei gyhoeddi'n fuan iawn. Byddai'r pris penodol yn cael ei gyhoeddi tua diwedd y flwyddyn a'r Hwb Cymunedol yn cael ei gwblhau cyn diwedd 2023/dechrau 2024. Nodwyd bod ystyriaethau eraill, fel dadansoddiad o brosesau busnes (a oedd yn cynnwys penderfynu ar dderbynfeydd, dyddiau ac amseroedd agor a lefelau staffio etc.) yn dal i gael eu datblygu gyda'r cyngor gan ei fod yn amlwg bod y cyhoedd yn dal i fod angen gwasanaeth 'wyneb yn wyneb'.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ynghylch cynlluniau hybiau cymunedol peilot yng Ngorseinon a Chlydach, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod pandemig COVID-19 wedi tarfu ar ddatblygiad y cynlluniau, fodd bynnag, mae cynlluniau hybiau cymunedol peilot yng Ngorseinon a Chlydach wedi cyflawni lefelau amrywiol o lwyddiant. Ailddatganodd ei awydd i ddatblygu hybiau, gan ddefnyddio adeiladau cymunedol yn ehangach ar draws Abertawe, gan adeiladu ar Hwb Cymunedol canol y ddinas.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ynglŷn â'r lle sydd ar gael i'r Gwasanaeth Archifau yn yr Hwb Cymunedol newydd, dywedodd yr Archifydd Sirol y byddai'r archif bresennol yn ffitio i’r ardal archifau. Cyfeiriodd at yr adeilad sy'n cael ei rannu â llyfrgell Glowyr De Cymru gydag ardal storio ar y cyd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gofnodion cyfarfod Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2022, ynglŷn â symud i'r Hwb yng nghanol y ddinas, sef y cam cyntaf i brosiect tymor hwy i adleoli'r gwasanaeth i gyfleuster newydd ger Amgueddfa Abertawe ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Cyfeiriodd y cofnodion at is-grŵp o archifwyr a Swyddogion Cyngor Abertawe yn cydweithio i ddatblygu'r syniad ymhellach. Nid yw'r cynnig wedi'i drafod eto gan y Cabinet yn Abertawe. Cadarnhaodd Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant fod yr is-grŵp yn dal i weithio ar ddatblygu'r syniad a phe bai hyn yn ymarferol byddai rhoi’r Gwasanaeth Archifau yn Hwb Cymunedol canol y ddinas yn gam dros dro i bob pwrpas. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod rhwymedigaeth ar y cyngor i nodi cyfleuster o'r radd flaenaf a bod cyfleoedd ehangach i brifysgolion fod yn rhan o hynny. Fodd bynnag, doedd dim cynlluniau ar waith ar hyn o bryd, ac roedd angen i waith fynd rhagddo i adleoli'r Gwasanaeth Archifau o'r Ganolfan Ddinesig.

Dywedodd yr Archifydd Sirol fod gwaith yn cael ei wneud (ar ffurf gwahoddiad i dendro) ar gyfer cynllun mwy uchelgeisiol i'r Gwasanaeth Archifau, yn dibynnu ar gyllid. Dywedodd ei fod yn ystyried y cynnig presennol fel un sy'n ateb dros dro. Dywedodd y byddai'n cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd, i Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant a Swyddogion am eu mewnbwn. Byddai llythyr yn cael ei anfon at Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant yn myfyrio ar y sesiwn a barn y Pwyllgor.

## 16 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad a dywedodd, ar ôl gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan bob cynghorydd anweithredol, fod aelodaeth arfaethedig yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor am gymeradwyaeth. Roedd hyn yn cynnwys cynghorwyr a nodwyd i weithredu fel cynullydd i'r Panel Ymchwiliad a'r Gweithgorau, fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd Terry Hennegan – Panel Ymchwiliad Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Y Cynghorydd Hazel Morris – Gweithgor Diogelwch ar y Ffyrdd
- Y Cynghorydd Lyndon Jones – Y Gweithgor Cydgynhyrchu
- Y Cynghorydd Mary Jones – Y Gweithgor Dinas Iach
- Y Cynghorydd Rebecca Fogarty – Gweithgor Cyswllt Cwsmeriaid

Mewn diweddariad i'r adroddiad printiedig byddai'r Cynghorydd Allan Jeffery'n cael ei ychwanegu at y Panel Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion.

**Penderfynwyd** cytuno ar aelodaeth y Paneli a'r Gweithgorau, fel yr adroddwyd.

## 17 Rhaglen Waith Craffu

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2022/23 y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ei monitro.

Yn unol â chynllun gwaith y Pwyllgor, trefnwyd i'r cyfarfod nesaf ar 13 Medi gynnwys sesiwn ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelod y Cabinet gydag Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Gymuned, y Cynghorydd Cyril Anderson, yn canolbwyntio ar dipio anghyfreithlon. Dywedodd y Cadeirydd y gall cwestiynau i Aelod y Cabinet ymdrin â materion cysylltiedig ar sbwriel a glanhau cymunedol.

## 18 Adroddiad Blynyddol Craffu 2021/22

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol Craffu 2021/22.

**Penderfynwyd** cyflwyno Adroddiad Blynyddol Craffu i'r cyngor ar 1 Medi, 2022.

## 19 Dyddiad ac amser cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddyddiad ac amser Cyfarfodydd y Panel/Gweithgor Craffu sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.01pm

**Cadeirydd**